**Fforwm y Gyllideb – cyfarfod ar 29/11/23**

**Diweddariadau grantiau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 – a baratowyd gan Carolyn Tapscott**

**Cyffredinol**

Gall ysgolion gael gwybodaeth am grantiau 2023/24 drwy fynd i'r ddolen ganlynol ar wefan Consortiwm Canolbarth y De. Nid yw'r ddolen uniongyrchol i'r daflen ariannu yn gweithio ar hyn o bryd, dilynwch y cyfarwyddiadau isod ar gyfer y daflen ariannu:

- Cliciwch y ddolen isod
- Ar ochr chwith y brif dudalen - cliciwch ar Gwella Ysgolion
- Cliciwch ar Cyllid Grant Ysgolion
- Cliciwch ar yr eicon Cyllid Cyfanredol Ysgolion.

https://www.cscjes.org.uk/repository/discovery/resource/bfad46a4-0252-4412-8dc3-7c2a547bc23b/en?sort=recent&strict=0

**Grant Dysgu Carlam (Recriwtio, Codi Safonau ac Adfer) - £1,441,582.03**

Dyrannwyd rhagor o arian i helpu ysgolion i fodloni gofynion Recriwtio, Adfer, Codi Safonau: Rhaglen Dysgu Carlam fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf 2020.

Prif ddiben y Grant Dysgu Carlam yw galluogi buddsoddiad mewn ysgolion i'w galluogi i recriwtio a defnyddio capasiti dynol ychwanegol i gefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol.

Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

| | |
|---|---:|
| Blwyddyn academaidd 2022/23 (5/12) Ebrill 2023 – Awst 2023 | £600,659.18 |
| Blwyddyn academaidd 2023/24 (7/12) Medi 2023 – Mawrth 2024 | £840,922.85 |
| **CYFANSWM Blwyddyn Ariannol 2023/24 hyd yn hyn** | **£1,441,582.03** |

(noder – nid yw'r tabl uchod yn cynnwys y grant dysgu carlam i leoliadau nas cynhelir)

**Grant Ôl-16 - £7,693,694**

Mae'r grant ôl-16 wedi'i ddirprwyo o fewn y fformiwla ariannu ysgolion.

**Grant pontio ôl-16 - £59,572**

Pum mis o gyllid rhwng Ebrill 2023 ac Awst 2023 i gynorthwyo disgyblion i bontio i'r cam nesaf o addysg. Mae hyn bellach wedi'i ddyrannu a'i roi i ysgolion.

**Cyllid Dilyniant Dysgwyr Ôl-16 - £200,394**

Mae hyn bellach wedi'i ddyrannu a'i roi i ysgolion.

**Dyfarniad cyflog cyllid ychwanegol i athrawon ôl-16 - £219,814**

Mae LIC wedi sicrhau bod y cyllid hwn ar gael tuag at gost effaith dyfarniad cyflog athrawon mis Medi 2022 ar gyllidebau 2023/24. Mae hwn wedi cael ei ddyfarnu a'i roi i ysgolion.

**Grant Datblygu Disgyblion - £4,137,700 i ysgolion a £12,650 i leoliadau nas cynhelir**

Bellach caiff y GDD ei ddyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru o dan y Grant Addysg ALl ac nid yw bellach yn cael ei ddyrannu trwy Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae'r dyraniadau'n seiliedig ar cPYADd o CYBLD 2022 ar £1,150 y disgybl. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**GDD Plant sy'n Derbyn Gofal - £237,845**

Consortiwm Canolbarth y De i benderfynu ar gyllid ar sail clwstwr, mae CCD bellach wedi cadarnhau bod dyraniad yr ALl gan Lywodraeth Cymru ychydig yn is nag a welwyd yn wreiddiol ar wefan LIC. Bydd CCD yn diweddaru'r ALl ar ddyraniadau fesul clwstwr yn dilyn proses ymgeisio clwstwr, sy'n debygol o fod rhwng canol a diwedd Rhagfyr.

**Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol - £5,430,200**

Bydd Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol yn parhau i gael ei weinyddu gan Gonsortiwm Canolbarth y De, mae ysgolion wedi cael dyraniadau unigol ar e-bost, mae'r CYBLD bellach wedi ei wirio ac nid oedd unrhyw newidiadau i'r dyraniadau dangosol a roddwyd. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Grant Dysgu Proffesiynol - £633,786**

Bydd y Grant Dysgu Proffesiynol yn parhau i gael ei weinyddu gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Grant dyfarniad cyflog athrawon - £954,385**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod y cyllid hwn ar gael tuag at gost effaith dyfarniad cyflog athrawon mis Medi 2022 ar gyllidebau 2023/24. Mae ysgolion eisoes wedi cynnwys cost lawn y dyfarniad cyflog o fewn cynlluniau cyllidebau ysgolion, felly bydd yr incwm hwn yn helpu i leddfu pwysau cyllidebol. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Grant Gweithredu ADY - £482,239**

Parhau â'r cyllid tuag at weithredu'r ddeddf ADY newydd. Mae'r grant ar gyfer ysgolion wedi cynyddu £303,032 neu 169% ar ddyraniad y llynedd, sef £179,207. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Cyllid Cydweithredu Consortiwm Canolbarth y De £442,810**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi dyrannu cyllid cydweithio i ysgolion. Mae'r fformiwla yn seiliedig ar gyfandaliad o £6,000 ac o £90 fesul athro cyfwerth ag amser llawn (yn seiliedig ar CYBLD 22). Mae ysgolion wedi derbyn e-bost am eu dyraniadau unigol a byddant yn derbyn y cyllid ar 70014 gan ei fod yn cael ei dderbyn i'r ALl ar y taliadau incwm swmp chwarterol gan CCD.

**Rhannu Elw Cwmni Arlwyo Big Fresh - £204,000**

Mae pob ysgol sy'n derbyn eu gwasanaeth arlwyo gan BFCC wedi derbyn £4,000 yr un o gynllun rhannu elw 22/23. Mae hyn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Rhannu Elw Cwmni Arlwyo Big Fresh ar gyfer cynigion Prosiect - £100,018**

Roedd ysgolion yn gallu gwneud cais am brosiectau yr hoffent eu sefydlu, roedd hyn yn rhan o gyllid rhannu elw BFCC 22/23. Mae ysgolion wedi cael gwybod am geisiadau llwyddiannus ac mae hyn bellach wedi'i roi i ysgolion.

**Adsefydlu Gwladolion Affganistan - £96,750**

Bydd ysgolion yn derbyn swm penodol o £2,250 ar gyfer disgyblion 3-4 oed a £4,500 ar gyfer disgyblion 5+ oed, dim ond am flwyddyn yn unig fesul plentyn y mae'r cyllid hwn a bydd yn cael ei dderbyn gan ysgolion unwaith y bydd y Swyddfa Gartref yn trosglwyddo'r cyllid i'r ALl. Bydd ysgolion yn cael gwybod am eu cyllid er mwyn iddynt roi cymorth ar waith i'r disgyblion, bydd Swyddogion SFS yn sicrhau y bydd yr incwm na dderbynnir yn cael ei gadw wrth gefn yn gywir ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cynllun Adsefydlu yn debygol o fod ar waith am tua 3-4 blynedd, felly bydd cyllid pellach ar gael i ddisgyblion newydd yn y blynyddoedd i ddod.

**Adsefydlu Gwladolion Wcráin - £146,316**

Yn 22/23 derbyniodd ysgolion gyda disgyblion o Wcráin Gyllid y Swyddfa Gartref, nid oes cyllid ychwanegol ar gael yn 23/24. Oherwydd sut y derbyniodd yr ALl y cyllid a sut y cyfrifodd y Swyddfa Gartref y cyllid, bydd rhywfaint o incwm pellach ar gael i ysgolion a oedd â disgyblion yn dal gyda nhw rhwng Ebrill a Awst 23. Mae’r cyllid hwn wedi'i roi i ysgolion. Bydd angen i'r cyllid hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2024.

**Ad-daliad Cymorth ADY - £850,00**

Nid cyllid grant yw hwn ond cyfraniad gan yr ALl o sefyllfa alldro ffafriol cyfrifon 22/23 fel yr hysbyswyd ym mis Mehefin. Roedd y dyraniadau’n seiliedig ar y ffurflenni RhYLl ym mis Ionawr 2023, mae'r cyllid hwn eisoes wedi'i roi i ysgolion.

**Cyllid grant refeniw wedi'i ddyrannu'n ganolog ar gyfer dysgwyr**

Yn ogystal â'r grantiau a ddirprwywyd i ysgolion, mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn hysbysiad o'r grantiau canlynol a fydd yn cael eu rheoli'n ganolog. Gellir dirprwyo rhai o'r grantiau isod i ysgolion i'w dyrannu o fewn telerau ac amodau'r grant unigol lle bo hynny'n berthnasol.

| **Enw'r Grant** | **Dyfarnwyd** |
|---|---:|
| Prydau Ysgol am Ddim i Bawb | £4,494,467 |
| Darpaiaeth gwyliau cPYADd | £325,648 |
| | |
| Hanfodion Ysgol (mynediad i GDD / gwisg ysgol yn flaenorol) | £469,100 |
| | |
| Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr | £365,395 |
| | |
| Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol (Cwnsela) | £106,238 |
| Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol - (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) | £8,682 |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | £67,696 |
| | |
| Dysgu carlam ar gyfer lleoliadau nas cynhelir (RAChS) | £189,572 |
| GDD ar gyfer lleoliadau nas cynhelir | £12,650 |
| Cyllid Cyfnod Sylfaen lleoliadau meithrin nas cynhelir | £234,756 |
| | |
| Prosiect CDU ar-lein | £42,000 |
| Darpariaeth Dysgwyr Gweithredu ADY | £392,703 |
| Gweithredu ADY (Dyraniad ALl) | £70,000 |
| | |
| Rheolwr Ysgolion Bro a Swyddogion Ymgysylltu teuluol | £307,573 |
| Swyddogion Lles Addysg | £105,662 |
| | |
| Trochi hwyr cyfrwng Cymraeg | £105,000 |
| Urddas Mislif | £128,315 |
| | |
| | |
| | |